**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 20 Gorffennaf 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd K M Roberts (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | S E Keeton | A S Lewis |
| N L Matthews | A J O'Connor | S J Rice |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jane Richmond | Project Manager Strategic Climate Change |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd A S Lewis Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): O G James, E T Kirchner a/ac A H Stevens

---

## 10 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd S J Rice gysylltiad personol â Chofnod 12 - Rhaglen waith Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd 2022-23.

## 11 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 12 Rhaglen Waith y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd 2022-23.

Cyflwynodd Geoff Bacon, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, adroddiad a oedd yn rhoi amlinelliad drafft i'r Pwyllgor o'r rhaglen waith ar gyfer 2022-23 a'r hyn yr oedd yn ceisio ei gyflawni o ran amcanion polisi.

Amlinellwyd, yn dilyn trafodaeth rhwng y Cyfarwyddwr ac Aelodau'r Cabinet, fod y blaenoriaethau a ddarparwyd yn yr adroddiad wedi'u nodi fel eitemau drafft ar gyfer rhaglen waith 2022-23, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a wnaed gan y Pwyllgor. Roedd y tabl hefyd yn rhoi’r allbynnau a’r canlyniad a ragwelir ar gyfer pob eitem yn y cynllun gwaith, yr ymrwymiad polisi y mae pob cynllun gwaith yn helpu i’w gyflawni a’r flaenoriaeth gorfforaethol yr oedd pob eitem o’r cynllun gwaith yn cyd-fynd â hi.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at feysydd gwaith ychwanegol i'w hystyried gan y Pwyllgor.  Pwysleisiwyd bod y rhaglen waith yn ‘ddogfen fyw’ a fyddai’n cael ei diwygio drwy gydol y flwyddyn ddinesig a fyddai’n caniatáu i’r Pwyllgor ddatblygu polisïau.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r Cynllun Adfer Natur fyddai'r eitem gyntaf i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd a nodwyd y byddai angen mwy nag un cyfarfod o bosib i drafod rhai pynciau.  Trafododd y Pwyllgor nifer o faterion fel a ganlyn: -

- Dod yn sero-net erbyn 2030
- Y Strategaeth Gwastraff bresennol, gan gynnwys cyfleoedd gwastraff bwyd a'r defnydd o garthffosiaeth.
- Cyflwyno cwestiynau cyn cyfarfodydd yn y dyfodol i roi cyfle i swyddogion ymateb.
- Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, yn enwedig enghreifftiau o ddinasoedd/ardaloedd eraill.
- Polisi Cynhyrchu Ynni, gan gynnwys enghreifftiau o arferion mewn ardaloedd/gwledydd eraill yn Ewrop.
- Polisi Bwyd Cynaliadwy – datblygu Strategaeth 2050, gan gynnwys arlwyo/caffael mewn ysgolion, mannau gwyrdd i ysgolion, tyfu rhandiroedd, cymorth i ffermwyr, prosiect 'O'r Pridd i'r Plât'.
- Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau/sefydliadau partner eraill.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo hefyd fod y rhaglen waith yn heriol iawn gyda nifer o bynciau mawr dan sylw.

**Penderfynwyd:** -

1) cymeradwyo Rhaglen Waith 2022-2023 ym mharagraff 2 yr adroddiad.
2) Drafftio adroddiad Rhaglen Waith 2022-2023 ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

## 13 Dyddiad ac Amser y Cyfarfodydd Dyddiad Trafodaeth.

**Penderfynwyd** cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol ar y trydydd dydd Llun o'r mis am 5.30pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.28 pm

**Cadeirydd**